YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. MAWRTH, 1920. [CYF. XX. RHIF 3.

AR ADEN FFYDD.

DECHREU MAWRTH.

DRAW yn llysoedd llwm y coed,
Yn nhrigfannau llwyd y bryn,
Yn aneddau gwyllt y graig,
Crwydra'r miwsig pera 'rioed
Fel o dalaith gobaith gwyn—
Rhyw dir hud tu hwnt i'r aig.

Hedydd gwyd i las y nef;
Mwyalch gân yng nghwr y drain;
Cerdd drydana fore claer;
Chwyth y gwynt ei alaw gref;
Blodau ddeffry gyda'r sain;
Mawrth a gân ei glychau aur.

Yn lle'r eira, daeth yr wyn;
Yn lle barug blodau dydd
Huliant fedd y gaeaf erch;
Ie'nctyd lama ar bob twyn
Gyda rhosyn ar ei rudd;
Deffry cariad mab a merch.

Cadw gwyl mae Cymru fad;
Ymhob annedd cyfyd cerdd;
Cynneu mae'r hynafol dân
Ar bob aelwyd yn y wlad;
Gwisgo'r hen geninen werdd
Mae pob un trwy Walia lân.

Hen goelcerthi'r bryniau ban!
Gwrided eto Gymru lân
O dan wawr eich llewych drud.
Aed yn uwch ac uwch i'r lan
Tua'r nef eich fflamau tân,
Nes goleuo'r eang fyd.

SARNICOL.

ODDIAR Y TWR.

YR wyf yn meddwl llawer iawn am y modd graddol y mae pobl gwahanol rannau o'r ddaear wedi eu dwyn yn agosach, agosach at eu gilydd, i adnabyddiaeth well o'u gilydd, o ddechreu hanes hyd yn awr. Bu adeg, ym mhell yn ol, pan oedd pobl un rhan o wlad yn hollol anadnabyddus i fobl rhan arall o'r un wlad; neu, os yn adnabyddus o'u gilydd, eto yn elynion i'w gilydd. Dyna fel y bu, un adeg, yn hanes Cymru: nid un Gymru, fel yn awr, eithr Cymru ranedig i lawer o rannau; pob rhan dan ei thywysog ei hun; a gelyniaeth yn ffynnu rhyngddynt a'u gilydd. Yr oedd llawer o achosion tu cefn i hyn, megis, anhawsterau teithio o un man i'r llall. Yn yr adegau pell hynny, yr oedd taith o un rhan o Gymru i ran arall o honi yn anturiaeth bwysig; taith o Gymru i Loegr yn anturiaeth fwy fyth; a thaith o Loegr i'r Cyfandir yn gyfryw na feiddiai neb ond rhai o galon eithriadol ddewr ymgymeryd a hi. Yr oedd taith o Gymru i Lundain, hyd yn ddiweddar iawn, yn golygu amryw ddiwrnodau ar y ffordd. Un o effeithiau'r diffyg cyfleusterau hyn i deithio o un man i'r llall oedd

Cadw Pobl ym mhell oddiwrth eu Gilydd.

Yn raddol, daeth cyfryngau i fyrhau pellter, ac i rwyddhau teithio, megis llwybrau, heolydd, cerbydau o wahanol fathau, ac ager-gerbydau. Trwy gyfrwng llwybrau a heolydd, byrhawyd pellter a rhwyddhawyd teithio yn fawr. Yn y cysylltiad hwn, dyngarwyr o'r radd flaenaf oedd y Rhufeiniaid; ni fu erioed y fath adeiladwyr ffyrdd a hwy. Trwy gyfrwng cerbydau, byrhawyd pellter a rhwyddhawyd teithio yn fwy eto. Byrhawyd pellter a rhwyddhawyd teithio lawer yn fwy pan ddaeth yr ager-beiriant. Y mae'r ager-beiriant, erbyn hyn, wedi ei berffeithio gymaint, fel nad yw taith o Geredigion i Lundain ond mater o ychydig oriau. Drwy'r cyfryngau hyn, ac ereill ellid eu henwi, y mae pobl yr holl wlad wedi eu dwyn, yn raddol, yn agosach, agosach at eu gilydd; a'r holl wlad wedi ei gwneud yn un gymydogaeth. Y mae'r un peth yn wir am y byd yn gyfan. Bu adeg, pan y parhâi taith o Loegr i'r Amerig amryw fisoedd; parhaodd taith y Tadau Pererinol yn agos i bedwar mis. Y pryd hynny, ac ym mhell ar ol hynny, yr oedd Prydain a'r Amerig, ymhell iawn oddiwrth eu gilydd; eithr heddyw, nid yw taith o un i'r llall ond prin mater o wythnos. Ac ymddengys fod yr adeg yn nesau pan y byrheir y pellter yn fwy eto—y dygir y ddwy wlad o fewn pellter diwrnod i'w gilydd; yn wir, y mae hyn eisioes wedi ei brofi yn bosibl. Y mae'r un peth yn wir yn gyffredinol:

Y mae Pellter yn cael ei Ddiddymu yn Raddol.

Y mae gwledydd nad oeddynt, i'n teidiau, amgen nag enwau, wedi eu dwyn yn agos atom; ac y mae pobl yr holl fyd yn dod, yn raddol,

i adnabod eu gilydd yn well. Y mae hyn yn ennill mawr iawn ; ie, y mae yn ennill annrhaethol werthfawr. Oblegid, drwy'r adnabyddiaeth well hon o'n gilydd, fe ddileir pob math ar ragfarnau ; fe dorrir i lawr y muriau gwahaniaeth ; fe ddaw i fodolaeth—fe fydd gwell mantais i ddwyn i fodolaeth deimladau gwell rhwng pobl a'u gilydd ; yn fyr, fe unir yr holl fyd, yn raddol, nid yn unig yn un gymydogaeth, ond hefyd yn un frawdoliaeth fawr. Fe ddyry hyn inni obaith fod proffwydoliaeth un o'n beirdd a welai "o bell, y dydd yn dod, bydd pob cyfandir îs y rhôd yn eiddo Iesu mawr" i gael ei sylweddoli—rywbryd. Ac nid yw'r broffwydoliaeth hon ond dull arall o roi mynegiad i un o feddyliau Iesu pan y soniai am

Un Gorlan ac un Bugail.

Proffwydoliaeth feiddgar oedd hon ; a dim ond dyn o ffydd angerddol, anorchfygol, fedrai roi mynegiad iddi. Hyd yn oed heddyw, ar ol yn agos i ddwy fil o flynyddau, pell iawn ydyw o gael ei chwblhau. Nid yw'r byd dynol ond prin dechreu ar y daith tua'r sylweddoliad o ddelfryd Iesu, ond y mae holl rediad yr oesau wedi bod â'i gyfeiriad tua'r terfyn hwn. Gwir mai araf yw'r cynnydd. Ac y mae adegau pan yr ymddengys fel pe fod yr hil ddynol yn llithro ym mhellach, bellach oddiwrth y ddelfryd hon, yn hytrach na nesau ati. Eithr nid oes lle i amheuaeth, mi gredaf, mai symud yn raddol tua'r cyflwr gogoneddus hwn y mae'r ddynolryw, er gwaethaf ei haml lithriadau. A'n braint ni yw cael o honom fyw mewn adeg pan y gwneir y fath ar ymgeisiadau nas gwnawd mo'u cyffelyb erioed o'r blaen i wneud proffwydoliaeth Iesu yn fwy o ffaith ym mywyd y byd dynol yn ei holl gysylltiadau, Un o'r ymgeisiadau hyn yw'r un i sefydlu'r hyn a elwir yn

Gynghrair y Cenhedloedd.

Ni ddylid gosod gormod o hyder yn y sefydliad hwn : peidiwn disgwyl iddo wneud rhyfel yn hollol amhosibl. Cyn y gellir gwneud rhyfel yn amhosibl, rhaid i'r natur ddynol fyned drwy ail-enedigaeth drwyadl. Os y llwydda'r Cynghrair i wneud rhyfel yn anhawdd, bydd hynny yn destyn diolch gwresog, oblegid bendith annrhaethol werthfawr fydd hynny. Diolchwn o galon fod digon o Gristionogaeth yn y byd i beri i ddynion i wneud y fath ar ymgais a hon i droi'r ddelfryd Gristionogol o fod yn weledigaeth i fod yn ffaith. Ennill mawr iawn ydyw fod dynion yn dechreu dod i weled na all yr hen berthynas rhwng gwledydd a'u gilydd barhau ; nad yw'r teimladau eiddigeddus, anfrawdol, sydd tu cefn i bob rhyfel, yn cydweddu ag ysbryd y Meistr. Nid ydynt yn cydweddu a'i ysbryd Ef ; ni ellir pwysleisio'r gosodiad hwn yn ormodol. Ni ellir, pwysleisio yn ormodol, hefyd, y ddelfryd Gristionogol—yr holl fyd dynol yn un gorlan, yn un frawdoliaeth fawr. I'r cyfeiriad hwn y mae'r byd i deithio, ac ni ddaw'r byd i'w le ond fel y bydd yn dynesu ati.

SYLWEDYDD.

LLYTHYR O FERTHYR.

At Olygydd YR YMOFYNYDD.

Annwyl Gyfaill,

Y mae bellach gryn fisoedd er imi ysgrifennu atat. Mae'r hen ffasiwn dda o ymohebu'n rheolaidd ar ddarfod o'i tir, er mawr golled i'r genhedlaeth hon, a cholled fwy i genhedlaethau i ddod.

'Rwyf yn clywed fod yr hen gyfaill pybyr o Bontshân—J. R. T., ar fin ymneilltuo o'i swydd fel prif-athro'r ysgol yno ; yn wir, efallai ei fod eisioes wedi ymddiswyddo. Cyn dweyd gair ymhellach gwn yr una pawb o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD gyda mi i ddymuno hwyrddydd hir, defnyddiol, ac euraidd i'r hen ysgolfeistr deheuig a phoblogaidd—John Rhydwen Thomas—i mi gael rhoddi ei enw yn llawn, un o'r bechgyn ardderchog a fagwyd ar aelwyd wledig ac anghyfoethog Rhydwen, yng nghwm Blaenglowonfach.

Y mae dyled arnaf fi'n bersonol i fechgyn Rhydwen ; dyled nas gallaf byth mo'i thalu. Na thybied neb mai er fy rhyddhau fy hun rhag cwrdd a'r bil yr wyf yn ysgrifennu hyn o lythyr. Na, o'r ochr arall, mae'm calon yn rhy lawn i'm tafod lefaru, nag im' pin ysgrifennu wrth ail-fyw yr oriau dedwydd a dyrchafol a dreuliais gynt yng nghwmni J.R.T. a'i frodyr. Bechgyn deallgar a chymdeithasgar ydynt i gyd—da gennyf allu ysgrifennu *ydynt*, a hir y parhao'r gair yn wir ; nid yn aml y ceir teulu cystal a hwy, mewn pen a chalon.

Ddeugain mlynedd yn ol nid llawer o fanteision addysg oedd yn ardal Talgarreg ; ac nid peth bach oedd i hogyn o Rydwen drafaelu'n ol a blaen i Ysgol Pontshân—ysgol enwog y Parch. Thomas Thomas i baratoi ar gyfer Coleg Normalaidd, Bangor. Y mae'n *ster* fawr oddirhwng dau corn yr aradr i fyned i feistroli problemau Euclid, a llu o broblemau ereill, ar gyfer arholiad caled. Ni fedrai un o gant o'r bechgyn fuom i yn ceisio eu dysgu fyth wneud y fath orchwyl yn llwyddiannus. Lawer i noswaith y bu J.R. yn ddyfal wrth ei lyfrau ar aelwyd Rhydwen dan doriad gwawr y bore. Felly, rhwydd y gellir cymhwyso yr hen bennill adnabyddus ato :

Nid saethu'n sydyn tua'r lan
A wnaed gan ddynion mawr ;
Ond dringent hwy tra chysgai'r lleill
O hwyr i doriad gwawr.

Er mai yn isel y pasiodd J. R. i'r Coleg, daeth allan y flwyddyn gyntaf yn y dosparth cyntaf, ac yn ben y rhês ! Dyna ffrwyth y llafur caled ym Mhontshân, yn Nhalgarreg, ac yn Llanarth, ac ar aelwyd Rhydwen yn oriau mân y bore. Nid oedd fawr gyfle iddo yn gynnar yn yr hwyr, pan yr oedd pawb yn mynd a dod yn yr unig fyfyrgell yn yr hen dŷ, sef y gegin o flaen y tân. Ychydig a ŵyr plant yr ysgolion canolraddol am anhawsterau myfyrwyr ieuainc ddeugain a hanner can mlynedd yn ol : dim llyfrau, dim ysgol, dim arian, a gwaeth na'r cwbl, dim cefnogaeth. Rhyw labwstyn segur oedd pob crwt arosai gartref a'i ben yn ei lyfr, hyd nes y profodd J. R., ac ereill, ffoledd y syniad. Da y cofiaf gymdoges yn ceisio calonogi tipyn ar fy mam pan oeddwn innau yn difa ei harian wyau yn yr ysgol yn Ceinewydd : "Dir annwl, Mali fach, falle daw e ar ben i drâd rhyw ddwarnod fel John, Rhydwen."

Nodwedd fawr bechgyn Rhydwen, ac yn enwedig J. R., oedd awydd am wybod, ac erys y gynneddf o syndod yn fyth-ieuanc ynddynt hyd y dydd

heddyw. Mae'r nodwedd honno yn cadw'r enaid o hyd yn fyw, neu, efallai mai cywirach fai dweyd mai'r meddwl byw sy'n mynnu gwybod ac yn dal i synnu yn ddiorffwys. Teimlant ddyddordeb ym mhawb a phobpeth. Nid yr alwedigaeth yw holl diriogaeth eu henaid. Mae'r rhan fwyaf o honom yn farw ond i ryw rai ac i ryw ychydig bethau. Mae'r bechgyn hyn yn fyw i'r cwbl. Efallai mai dyna'r rheswm nad oes un o honynt wedi cyrraedd y pinacl mewn unrhyw un cyfeiriad. Nid wyf yn dweyd mwy nag wyf yn gredu y gallsai un o'r bechgyn hyn fod yn feddyg yn Harley Street, y llall fod yn Aelod Seneddol, ac un arall fod yn broffesor mewn coleg. Ond pwy a ŵyr nad yn y mannau lle maent y medrant fod o fwyaf defnydd i gymdeithas? Pwy fedr fesur dylanwad J. R. ar y cenedlaethau sydd wedi eu troi allan o ysgol Pontshân. Pwy fedr gyfrif ei werth ym Mwlchyfadfa ac eglwysi Undodaidd y cylch? Onid teg yw i ysgolion gwledig gael athraw wedi pasio'n uchel? Gyda llaw, mae J. R. wedi pasio'n uwch na bron un ysgolfeistr ym Mwrdeisdref Merthyr, ac wedi pasio lawer iawn yn uwch na'r mwyafrif mawr o honynt. Onid yw'n syndod fod yr ardal wedi ei gadw am gynifer blwyddyn faith?

Nid wyf wedi cael cyfle i gyfeillachu a J. R. er's rhai blynyddau, er iddo ef, ac wedyn fy hunan uno a'r clwb mawr. Aml i noson a dreuliais dan ei gronglwyd hen-lancyddol, yn trin pob mater ar glawr daear, a llawer mwy na hynny, hyd oriau mân y bore, a mwy nag unwaith yr aethom i orffwys a'r wawr yn torri ar darth gwyn afon Clettwr, a'r ceiliogod yn galw'r gweddill o'r byw i ddeffro at waith y dydd. "Bachgen," meddai J. R., rhwng cysgu a pheidio, ac yn syllu allan drwy'r ffenestr a llygaid "crapach" a swrth, "bachgen, dyma *sight*, clywed y ceiliogod yn canu!" Yr oedd cwsg wedi tori dan sail ei ffigyrau, a hunwyd yn esmwyth am ryw deirawr, cyn ei bod yn amser i J. R. godi a pharatoi eto ar gyfer gwaith y dydd yn yr ysgol. Mae'r athraw hyglod o Bontshân wedi bod yn ddarllennwr mawr ar hyd ei oes. Darllena bobpeth, yn Gymraeg a Saesneg, yn ddiwinyddiaeth, athroniaeth, barddoniaeth, gwyddoniaeth, a phob "aeth" arall o dan y rhod; ond efallai mai nofelau mae wedi ddarllen fwyaf. Mae wedi eistedd i fyny drwy y nôs lawer gwaith i orffen rhyw lyfr dyddorol. Wrth natur, credaf mai *scientist* ydyw; dyna ansawdd naturiol ei feddwl; ac y mae ei amryw dystysgrifau mewn gwyddoniaeth yn brawf o hynny.

Mae yn gerddor gwych, wedi dysgu rhedeg Solffa yn grwtyn ieuanc iawn gan yr hen gewri John Rhydsais, a John Ffatri-isaf; coffa da yn y byd Undodaidd, ac yn enwedig yng nghanolbarth Sir Aberteifi, am enwau'r ddau wron o lannau Clettwr.

A oes son fod yna dysteb i gael ei chodi i J. R.? Nid wyf fi wedi clywed gair am y peth o ben neb; mae'r syniad yn hollol wreiddiol i mi; ond gan fod J. R. yn haeddu rhyw arwydd o barch ar ei ymneilltuad, byddai y cyfryw symudiad o fudd moesol i'r gymydogaeth; da i bawb yw talu parch lle mae'n ddyledus. Nid yw'r ardal yn gallu sylweddoli faint mae'r hen ysgolfeistr wedi aberthu drwy aros yn y lle am y rhan oreu o'i oes. Hyderaf y maddeua fy hen gyfaill am ysgrifennu mor rhydd a diseremoni am dano. Mae yn fy mryd osod ar gof a chadw fy hen adgofion am lannau Glowon, a daw darlun o Rydwen gyda'r ysgrif honno. Nis gwn bryd y caf hwyl a hamdden i'w hysgrifennu. Ond y mae yn llosgi yn fy nghalon er's llawer dydd. Yn oriau tawel yr hwyr, pan ddistawo twrw Merthyr o'm cylch, tŷr swn murmur Glowon, a Sycan, a Bwdran, nentydd bro fy mebyd ar fy ŋghlust, a daw'r hen deuluoedd annwyl yn ol i gydgwmnia a mi, ac yn eu plith 'does deulu hawddgarach na theulu Rhydwen, ac o'r teulu hwnnw nid y lleiaf

llon a hawddgar yw'r cyfaill dawnus, iach ei galon, a chymdeithasgar, J. R. Thomas, o Bontshân. Os mynni, cei lythyr eto cyn hir. Cofion goreu atat, ac at holl ddarllenwyr

YR YMOFYNYDD.

Yn bur,

SARNICOL.

[Dymunem hysbysu Sarnicol, ac eraill o gyfeillion Mr. J. R. Thomas, yr ymneilldua o'i swydd fel ysgolfeistr diwedd y mis hwn. Y mae symudiad ar droed i estyn tysteb iddo yn fuan wedi hynny. Nis gwyddom pwy ydynt swyddogion y niudiad, ond os dymuna rhai o gyfeillion Mr. Thomas gymeryd rhan yn ei anrhydeddu, os danfonnir atom unrhyw danysgrifiad, gofalwn yr aiff i'r man iawn.—GOL.]

LOCUSTIAID.

"Mae y wlad o'u blaen fel gardd baradwys, ac ar eu hol yn ddiffeithwch anrheithiedig."—Joel 2 : 3.

Mae y locustiaid yn cynrychioli naw neu ddeg o wahanol eiriau Hebreig, ac o bosibl fod y geiriau hynny yn dynodi amryw fathau o locustiaid. Dywedir eu bod o'r un rhywogaeth a'r ceiliog rhedyn (neu Sioncyn y Gwair). Mesurant tua dwy fodfedd a hanner o hyd, ac o liw llwyd-wyrdd gyda spotiau tywyll ar yr adenydd. Maent yn hynod am eu rhif a'u gwanc, ac felly ffurfiant un o bläau mwyaf dinystriol gwledydd y dwyrain. Locustiaid oedd yr wythfed plâ ddanfonwyd ar Pharaoh (Exodus 10 : 4—15). Cyfeirir atynt yn fynych fel offerynau barnedigaeth Duw.

Edrydd un awdwr am gymylau o locustiaid yn dyfod o'r dwyrain, ac yn tywyllu yr awyr am fisoedd. Mewn un awr fe'u ceir yn difa pob peth gwyrdd ar gant o aceri o dir, a phan yn dyfod ar draws y môr yn marw ac yn achosi haint ofnadwy. Mae yr Aifft, a Syria, a Persia, yn wir, mae bron yr oll o ddeheubarth Asia yn agored i'r haint hwn, haint sydd yn llawn mor ddinystriol a'r ddaeargryn neu'r mynydd tanllyd. Yr oedd rhif y locustiaid hwnt i ddychymyg dyn allu eu rhifo. Cuddiant filldiroedd o'r ddaear. Mae'r swn a wnant wrth bori ar ddail y coed yn gyfryw ag y gellir ei glywed o bellder mawr. Gellid meddwl fod tân wedi eu dilyn y ffordd yr aethant. Yn mha le bynnag yr ymwasgarant y mae glesni'r wlad yn diflannu ; coed a phlanigion o bob math yn cael eu diosg o'u dail, ac yn rhoi golwg auafaidd i dymor y gwanwyn. Pan fyddo cymylau o honynt yn hedfan fe dywyllir y nefoedd yn llythrennol ganddynt. Darllener cymhariaeth llyfr Joel 2 : 1—11.

Gwna'r locustiaid eu hymddangosiad cyntaf tua diwedd Mawrth, fynychaf pan mae'r gwynt o'r De. Tua chanol Ebrill mae eu rhif wedi cynnyddu yn aruthrol ; ac yn ngwres y dydd ymffurfiant yn lluaws o heidiau mawr, afrifed, ac ehedant yn yr awyr fel olyniaeth o gymylau, ac i ddefnyddio geiriau Joel—"Yr haul a dywyllir, a'r ser a ataliant eu llewyrch." Tua mis Mehefin ceir un

nythaid ar ol y llall yn dyfod yn nghyd yn gorff cryno, ryw wythfed ran o filldir scwar, ac yn cyrchu ar eu hunion i gyfeiriad y mor. Ni adawant i ddim ddianc, bwytânt bob peth gwyrdd fyddo a nodd ynddo, nid yn unig y llysiau bychain, ond y winwydden hefyd, a'r ffigysbren, y pomgranad, y balmwydden, a'r afallen, a holl brennau y maes. Yr olwg arnynt sydd megys golwg o feirch ; ac fel marchogion, felly y rhedant. Rhedant fel glewion, dringant y mur fel rhyfelwyr, a cherddant bob un yn ei ffordd ei hun, ac ni wyrant oddiar eu llwybrau. Gwibiant ar hyd y ddinas ; rhedant ar y mur, dringant i'r tai ; ânt i mewn trwy'r ffenestri fel lleidr. Ceisia'r trigolion rwystro eu blaenfynediad drwy wneud lluaws o lynnau a ffosydd ar hyd ac ar draws y maesydd a'r gerddi, y rhai a lanwant a dwfr ; neu ynte gwnant grugiau o sofl a phethau eraill a losgant, a gosodant y rhai hynny ar dân pan welant y locustiaid yn nesu. Ond ofer fydd hyn oll, llenwid y ffosydd yn fuan, a diffoddid y tân gan yr heidiau aneirif a ddilynant eu gilydd ; tra mae'r tu blaen yn hollol ddisylw o berygl, a'r tu ol yn ymwasgu ar ben eu gilydd fel yr oedd dianc yn amhosibl.

Ysgrifennydd arall a ddywed : Pan oeddym yn ein pebyll ganol dydd, clywsom swn anarferol tebyg i siffrwd gwynt mawr yn y pellder. Wrth edrych i fyny canfuasom gwmwl dirfawr, hwnt ac yma, dipyn yn oleu, ac mewn mannau yn bygddu hollol, ac yn ymdaenu dros yr holl wybren. ac weithiau yn cysgodi yr haul, Deallasom yn fuan mai locustiaid oeddynt, gan fod heidiau cyfain o honynt yn syrthio o amgylch i ni. Yr oedd y rhai hyn o liw coch, locustiaid ysglyfaethus, tebyg i un o bläau'r Aifft ; a thebyg, feallai, hefyd i'r ceiliogod rhedyn y sonia Nahum am danynt (3 : 17). Gynted ag y gwnaethant eu hymddangosiad, dechreuodd yr amaethwyr a'r garddwyr floeddio'n uchel i geisio eu rhwystro i ddisgyn ar y tir. Dyna'r arferiad y cyfeiria Jeremiah ato, pan y dywedodd, "Diau y'th lanwaf â dynion, megys a lindys, a hwy a ganant floddest i'th erbyn" (51 : 14). Ymddangosent fel pe yn cael eu cynhyrfu gan un reddf gyffredin, ac yn cael eu symud yn un corff, a hwnnw o dan arweiniad un llywydd.

Er nodi'r pellder y gall y creaduriaid bychain hyn fynd yr ydys wedi sylwi fod llong yn y flwyddyn 1865, ar y ffordd o Bordeaux i Boston, wedi dod ar eu traws ryw ddeuddeg mil o filldiroedd oddiwrth y tir agosaf, ac am ddau ddiwrnod yr oedd yr awyr yn llawn o locustiaid, y rhai a ddisgynent ar hyd yr holl long. Yn 1889, pasiodd haid dros y Môr Coch, yr hon a estynai dros ddwy fil o filldiroedd scwar. A chyfrif fod pob locust yn pwyso un rhan o un-ar-bymtheg o owns, byddai'r haid yn pwyso 42.850 o filiynau o dynelli. Yn 1881, fe ddinystriwyd tair mil ar ddeg o dynelli o wyau y locustiaid !

Mae rhai mathau o'r locustiaid yn cael eu defnyddio fel bwyd, ac ystyrir hwn yn amheuthyn ar ol eu coginio yn briodol (Lef. 11 : 22 ; Matt. 3 : 4). Ar ol cymryd i ffwrdd y coesau a'r adenydd, a symud y coluddion, fe'u gosodir yn rhestri ar dameidiau o bren ; rhostir hwy wrth y tân, ac yna bwyteir hwy gyda blas. Ceir fod amryw ffyrdd i'w parotoi. Er enghraifft, fe'u coginir mewn olew, yna wedi eu sychu, malir hwy ; a phan fo prinder o fwyd arall, gwnant fara o'r blawd. Mae'r Bedawiniaid yn eu pacio mewn halen yn bentyrrau, a chludant hwy mewn sachau o ledr, a thorrir hwy yn dafellau i'w defnyddio fel bo angen.

Yr ydys wedi tybio mai ffrwyth y carob, neu y *locust-bean*, oedd yr hyn ddefnyddiai Ioan Fedyddiwr. Nid yw'r awdurdodau yn cytuno hyd heddyw ar y mater, ac nid yw o bwys. Fe ganiatein fod locustiaid o ryw fath yn cael eu bwyta. Dywed un awdwr fod synwyr cyffredin yn awgrymu na wnai Ioan ddewis locustiaid fel ei fwyd arferol yn lle'r bwyd gynyrchid yn ei wlad ei hunan. Pwy all ddweyd ?

Defnyddir y locust fel cymhariaeth

tarawiadol gan awdwr llyfr y Dadguddiad. Darllener 9 : 3, &c. : "Ac o'r mwg y daeth allan locustiaid ar y ddaear : a rhoddwyd awdurdod iddynt, fel y mae gan ysgorpionau y ddaear awdurdod. A dywedwyd wrthynt, na wnaent niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren : ond yn unig i'r dynion oedd heb sêl Duw yn eu talcennau," &c., &c.

Y TAIR FRAN DDU.

Dichon fod fy darllenwyr, lawer o honynt, wedi gweld cyfeiriad o bryd i bryd at stori'r "Tair Fran Ddu," eto credaf mai ychydig sydd yn hyspys o'r stori ei hunan. Yr oeddwn i wedi arfer credu mai'r Dr. Joseph Priestley oedd tad a mam y stori ; ond yr wyf, er chwilio, wedi methu dod o hyd iddi yn ei weithiau ef. Mor bell ag y gallaf gofio, mae'r stori — benthyg yw'r enwau—rywbeth yn debyg i hyn :— Fe ddwedid fod John Jones wedi *llyncu* Tair Bran Ddu ! Ar ol ymwasgar i bell ac agos, daeth y stori yn y diwedd i glustiau John Jones ei hunan. Stori gâs oedd, stori ffol, stori mor eithafol ffol fel y gellid tybio na fuasai neb yn ei chredu. Ond credu neu beidio, yr oedd rhywbeth yn y stori oedd yn peri fod dynion yn cael blas i'w hadrodd. Eto nid rhyfedd i John Jones deimlo'n chwerw a thramgwyddo, a phenderfynu ohhain a chwilio'r mater hyd y gwraidd. Penderfynodd yn ddoeth dybiaf fi. Dywedwyd wtho mai Jemi'r Crydd oedd yn adrodd y stori. Syndod mor fynych mae shop y crydd yn ffynon y glap ! Aeth John Jones at Jemi'r Crydd, a gofynodd iddo, 'Paham yr wyt ti'n dweyd fy mod i wedi llyncu tair bran ddu?' 'Bobol anwyl!' ebe Jemi, 'ni ddywedes i erioed y fath beth ; *dwy* fran ddu ddwedes i.' 'Ond pam y darfu i ti ddweyd i mi lyncu dwy fran?' 'Matti Ty'r Lôn ddwedodd wrthyf fi, a thyngai Matti ei fod yn eithaf gwir.' Wel, fe aeth John Jones at Matti, a gofynodd, 'Pam y daru iti ddweyd wrth Jemi'r Crydd fy mod i wedi llyncu dwy fran ddu?' 'Caton pawb!' ebe Matti, 'fel mae dynion yn llunio celwyddau ; nid dwy ddwedes i, ond *un*.' 'Ond pwy ddwedodd wrthyt ti fy mod i wedi llyncu un bran ddu?' 'Gito'r Go ddwedodd wrthw i fod John Jones wedi llyncu bran ddu, nos Ffair Awst diweddaf.' Aeth John Jones at Gito, a dyma'r ateb a gafodd — 'Ni ddwedais i erioed y fath beth ; yr hyn ddwedais oedd iti chwydu rhywbeth oedd *mor ddued a'r fran!* A gwir yw hynny, fel y gwyddost. Yr oeddwn i yn bresennol ar y pryd.'

Onid yw'n rhyfedd mor wahanol yw'r stori ar y diwedd i'r hyn oedd ar y dechreu. Fel caseg eira, mae wedi chwyddo a thyfu wrth dreiglo o ben i ben. Yn wahanol i hyn ceir ambell stori darawiadol yn treulio a lleihau wrth dreiglo o ben i ben, nes mae'r hyn oedd ar y cyntaf yn ddealladwy ac yn cynnwys rhyw fath o wers neu hanes pwysig yn mynd yn hollol ddi-ystyr.

Cefais y cyfleusdra, yn y Llyfrgell Rydd, yn Abertawe, yn ddiweddar, trwy garedigrwydd Mr. Phillips, y Llyfrgellydd, i edrych trwy lyfr dyddorol, o waith un Thomas Gray —"The Buried City of Kenfig." Fel y gwyr y darllenydd, mae'r hyn

sydd ar glawr o Ddinas Cenffig o fewn ychydig filldiroedd i Borthcawl ac i'r Pil. Mae blynyddau lawer oddiar y darfu i dywod y mor ei goddiweddyd a'i chuddio, fel nad oes fawr yn weddill ohoni heddyw. Daliodd un peth yn y llyfr fy sylw yn neillduol, sef yr hyn a ddywedir am y Maen Hir wrth Ty'n y Seler. Parodd i luaws o ofyniadau godi yn fy meddwl, fel y gwnaethant i Mr. Gray. Fel hyn y gesyd Mr. Gray ei ymholiadau: A oedd y Rhufeiniaid bymtheg cant o flynyddau'n ol yn gofyn ystyr y cerrig hyn? I ba ddiben y dodwyd hwy lle y maent? Nid oes yr un ysgrifen arnynt—dim i awgrymu'r paham y safant lle maent. Ceir llawer o'r meini hyn hwnt ac yma ar draws y wlad. Gwn am un sydd yn apelio yn arbennig ataf, sef yr un ar dir Blaenhirfain, ar fynydd Cellan, yn Sir Aberteifi.

Dyma sylw gofnodir gan Mr. Gray :—" Hyspysodd Miss Emily David, Maesgwyn, fi, fod dywediad ar lafar gwlad y gymydogaeth, fod y Maen Hir wrth Ty'n y Seler, bob bore Nadolig, yn mynd i gael dracht o ddwr y môr i'w yfed.' Dyna enghraifft, dybiaf, o stori wedi treulio wrth dreiglo o ben i ben nes mynd yn ddi-synwyr ac anghredadwy.

Fe wyr rhai o'm darllenwyr yn mhlwyf Llandyssul am faen ar odre tir Pantiorlech, yn cario stori llawn mor darawiadol a llawer mwy awgrymiadol. Sylwer ar yr enw—Pant-ior-lech. Fe wyr y darllenydd ystyr *Pant*. Fe saif *Ior* am yr haul, ac yn aml am Dduw, ac ystyr *llech* yw maen neu garreg. Ar y garreg dan sylw mae cylch i ddynodi'r haul. A dyma'r stori: Mae y garreg, bob tro y clyw y ceiliog yn canu, yn brysio i ben y bryn i roesawu'r haul yn codi.

Fe wel y darllenydd fod ystyr y stori hon yn amlwg ddigon. Mae'n stori dda i'w hadrodd.

S.N.S.

SYRTHIO I GODI.

Conffiwsiws, y dyn doeth o China, a ddywedodd nad yw gogoniant dyn yn y ffaith o beidio syrthio byth, ond yn hytrach y mae yn y ffaith o godi ychydig yn nes yn mlaen bob tro y syrthiwn. Yr ydym nid yn unig yn syrthio ond fe'n teflir i lawr hefyd lawer gwaith yn ystod ein bywyd. Nid yw bywyd yn llwybr llyfn, un garw a chaled yw. Bywyd yw'r stwff i dreio pa beth ydym. Nid yw wiw treio ei osod allan fel rhyw *procession* neu orymdaith ogoneddus a buddugoliaethus. Nid oes eisiau bod yn *pessimist* er mwyn edrych ar ffeithiau bywyd wyneb yn wyneb. Y maent yr hyn ydynt, ac ni wnaiff cau ein llygaid eu symud na newid eu caritor.

Mae'r holl ogoniant sydd mewn bywyd wedi ei ennill gan ewyllysiau cryf a phenderfynol. Dim ond trwy daro y maen callestr a'r darn dur y gallai ein tadau gael eu gwreichion tân.

Gallwn alaru oblegid ein lwc ddrwg, ond ein lwc ddrwg yw ein cyfleusdra i brofi ein hunain, ac i gael allan o ba fath stwff yr ydym wedi ein gwneud. Rhaid i ni wrth syrthio. Gallwn ddisgwyl cael ein taro i lawr. Nid yw'r cyfryw brofiadau yn gyfyngedig i ni. Maent yn brofiadau cyffredin. Hwy

yw'r cyfleusderau sy'n gosod tymer yn ein heneidiau, ac yn cryfhau ein asgwrn cefn. Gallwn achwyn o'u plegid, ond hwy yw'r defnydd allan o'r hwn y tyf bywyd cryf ac ardderchog. Hwy yw'r hyn y portha'r enaid arno.

Pan syrthiwn yr ydym i gyd yn rhy fynych yn treulio oriau mewn hunan-dosturi ofer a di-bwrpas uwch ben ein hanffawd. Anghofiwn mai ein dyledswydd yw codi ychydig yn nes yn mlaen. Anghofiwn mae ein dyledswydd yw dysgu oddiwrth ein camsyniad ac nid cymryd ein gorchfygu ganddo.

Fe'n temtir i wneud bobpeth mor hawdd ac esmwyth ag sy bosibl i'n plant. Yr ydym am eu hamddiffyn rhag pob ystorom. Ceisiwn symud pob rhwystr oddiar eu llwybrau. Ond wrth wneud hynny yr ydym yn cymryd oddiwrthynt y defnyddiau angenrheidiol i gynyrchu dadblygiad personoliaethau cryf a chadarn.

Ni ddadguddir ardderchawgrwydd bywyd drwy grintach ond trwy y gwroldeb a ddangoswn yn wyneb unrhyw beth a ddwg bywyd i ni. Ni olyga hynny ein bod i dreulio ein amser i osod rhwystrau ar ffordd eraill er mwyn eu lleshau. Mae digon o leoedd geirwon ar y ffordd heb i ni ychwanegu atynt. Ar ol i ni wneud ein gore i lyfnu llwybrau bywyd, fe fydd rhwystrau o hyd ar ein ffordd. A da fydd inni gofio fod llyfnu'r ffordd i bawb yn beth gwahanol iawn i'r llyfni i ychydig ffafriaid.

Hyd yn oed pan fyddwn yn gwneud ein gore i lyfnu'r ffordd i eraill, cawn ddynion yn creu rhwystrau iddynt eu hunain. Ofer fydd ceisio cymryd y rhagorfraint hyn oddiwrthynt. Nis gallwn ei wneud. Pe gallem, ni gymrwn oddiwrthynt brif foddion dadblygiad eu dynoliaeth.

Er hynny profiadau caled yw y syrthio parhaus a gyfarfyddwn. Parant i ni'n fynych lefain mewn poen. Ond os gorweddwn yn ein trueni deuwn yn wrthrychau gwawd a dirmyg i'n cymdogion a chollwn ein hunan-barch. Rhaid i ni os ydym i fyw mewn ystyr wirioneddol godi ac ymysgwyd a mynd rhagom gyda'r fath ddewrder ag a feddiannwn. Hynyna a rydd i fywyd ei ogoniant.

Fe ddichon na chanlynir ni gan seindorf o gerddorion yn canu. Fe ddichon na chawn weld baneri ar gornel pob heol. Ond gallwn ddisgwyl hyn o leiaf—na fydd achos i ni gywilyddio. Gallwn gael ein rhwystro am foment, ond ni chawn ein gorchfygu. Gallwn fyw a dysgu, ac hynyna yw busnes bywyd.

ALIQUIS.

DIODDEFWR "CLEFYD Y SUL."

O! mae'n glaf ymhen ei glun—ias aethus,
A hithau'n Sul Cymun,
Yn wyrthiol, braidd yn wrthun,
Bird y lle yw bore Dy' Llun.

PWY?

COLOFN "MAES LLAFUR 1919—1920."

GWERS VII.—Iesu yn dechreu pregethu. Darllener (1) Matt. 4 : 12—25 ; [(2) Marc 1 : 14, 15 ; (3) Luc 4 : 14, 32.]

1. Ar ol ei ymweliad â Ioan, aeth Iesu yn ol i Galilea.

2. Yn fuan, dechreuodd bregethu ; a dwedai, fel Ioan, "edifarhewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." Aeth sôn am dano trwy'r holl wlad.

3. Dwedir ei fod "yn athrawiaethu yn eu synagogau hwynt, ac yn cael anrhydedd gan bawb." (Luc 4 : 15).

4. Ar ol pregethu am dipyn o amser ymwelodd a Nazareth. Aeth i'r synagog ar y Sabbath, a darllenodd rannau o'r Ysgrythyrau (gweler Luc 4 : 18, 19 ; hefyd, Esaiah 61 : 1).

5. Ar ol darllen, dwedodd Iesu, "Heddyw y cyflawnwyd yr Ysgrythyr hon yn eich clustiau chwi."

6. Perodd hyn gyffro mawr ym mhlith y bobl, "Onid hwn yw mab Joseph ?" meddent. Cyffrôdd hyn Iesu i ateb, "yn hollawl y dywedwch y ddiareb hon wrthyf, y meddyg iacha di dy hun," &c. (gweler Luc 4 : 23, 24).

7. Cododd y bobl yn ei erbyn ; a gwnaethant ymgais i'w daflu dros ael y bryn, gyda'r bwriad o'i ladd ; ond llwyddodd Iesu i ddianc.

8. Nid ymwelodd Iesu â Nazareth ar ol hyn ; ac o hyn allan gwnaeth ei gartref yng Nghapernaum.

Nodyn.—Capernaum : Dinas ar lan Môr Galilea, ar yr ochr ogledd-orllewin. Nid oes dim o'i hol yn aros. Tref fasnachol bwysig ydoedd, ar y ffordd rhwng yr Aifft a gwledydd y dwyrain.

GWERS VIII.—Iesu yn dewis disgyblion. Darllener (1) Matt. 4 : 18—22 ; 10 : 1—4 ; [(2) Marc 1 : 16—20 ; 3 : 13—19 ; (3) Luc 6 : 13—16].

1. Ar ddechreu ei weinidogaeth dewisodd Iesu ddisgyblion i'w gynorthwyo.

2. Y pedwar cyntaf a alwyd oedd—Simon (Petr), ac Andreas, ei frawd ; Iago a Ioan, dau fab Zebedeus. Pysgotwyr oedd y pedwar. Yr oedd Iesu ar lan Môr Galilea pan y galwodd hwynt. "Deuwch ar fy ol i," meddai, "a mi a'ch gwnaf yn bysgodwyr dynion."

3. Y nesaf a alwyd oedd Matthew (neu Lefi). Publican oedd Matthew.

4. Yna, dewisodd ddeuddeg, "fel y byddant gydag ef." Yr oedd y pump a enwyd o'u nifer. Gweler eu henwau ym Matthew 10 : 1—4.

5. Yn yr Efengylau, daw Petr, Iago a Ioan, i'n sylw yn aml ; ond nid oes ond ychydig o hanes y lleill.

6. Yn adeg olaf ei fywyd bradychodd Judas ef, a ffodd y lleill oddiwrtho. Petr (ac Ioan, efallai) fu fwyaf ffyddlawn iddo. Ond ar ol ei ddilyn i'r man pellaf, gwadodd Petr ei feistr deirgwaith.

Nodiadau.—Publican : Casglwr trethi dan y Llywodraeth Rufeinig ; plaid amharchus am ddau reswm : (1) Yr oedd yn groes i deimlad yr Iuddew i dalu treth i Rufain ; (2) Rhoddai'r dull o drethu gyfle i'r casglwyr i godi mwy na ddylent ; yr hyn, yn debygol, a wnaent. *Judas Iscariot* : Judas, y dyn o Cerioth. Pentref yn Judea (fel y tybir) oedd Cerioth.

Dalier Sylw.—Gan mai atgoffa yn unig o'r hyn ddysgwyd y llynedd ddisgwylir yng Ngwersi I—III, ni wneir sylw pellach o honynt ; felly, gyda'r Wers uchod, deuwn at derfyn y Maes Llafur. Yn y rhifyn nesaf, fodd bynnag, rhoddir ychydig sylwadau ar yr oll o'r gwersi. Apelir at yr athrawon i ymgymeryd o ddifrif â'r gwaith o hyn hyd yr arholiad.

PRIODAS.

IONAWR 30, yng Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a cherbron Mr. Enoch Davies, y Cofrestrydd, Mr. Daniel Davies, Caerau Arms, Cellan, a Miss May Jones, Abernant Smithy, ger Cribyn. Pob llwyddiant iddynt.

MARWGOFION.

IONAWR 26, yn 77 oed, John Jones, Dunraven St., Tonypandy. Yr oedd wedi llesgau er's rhai wythnosau, ond er hynny daeth y diwedd yn dra sydyn. Dioddefodd boenau mawr yr wythnos olaf, a melys oedd y rhyddhad. Pan yn ieuanc bu yn forwr, a bu effaith hyn arno trwy ei oes yn y ffurf o *Ague*. Ymadawodd a'r môr, a daeth i Gwm Rhondda i weithio ar y T. V. R., yng ngorsaf Dinas. Ymhen ychydig dechreuodd fusnes o werthu ymenyn a wyau, yr hyn waith a ddilynodd hyd ychydig flynyddoedd yn ol. Yr oedd Mr. Jones yn un o gymeriadau hynod y Pandy, yn Undodwr selog, ac yn un o golofnau'r achos yng Nghlydach Vale. Flynyddoedd yn ol cawd llawer llith ganddo yn YR YMOFYNYDD, ac adnabyddus i'r darllenwyr oedd y llythyrennau J. J. T. Ei brofiad ar y diwedd ydoedd, ei fod wedi hir flino ar bethau yma, ac hiraethai am gael rhyddhad. Claddwyd y dydd Iau canlynol, ym mynwent Lledrddu, Trealaw, a daeth torf o gyfeillion ynghyd, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis. Gwenau Duw i'r plant sydd ar ei ol.

IONAWR 28, yn 54 mlwydd oed, Daniel Evans, mab Mr. David Evans a'r diweddar Mrs. Margaret Evans, Llwynbedw, ger Alltyblacca. Gwanychodd ei iechyd amryw flynyddau yn ol, ac aeth y pryd hwnnw i *Sanatorium*; gwellhaodd gymaint fel y bu yn alluog i ddilyn ei alwedigaeth am rai blynyddau wedi hyny yn Neheudir Cymru. Ond gwaethygodd ei iechyd y llynedd, ac er iddo fyned i *Sanatorium* yr ail waith ni dderbyniodd fawr ddaioni y tro hwn. Yr oedd o natur hynaws ac o ysbryd tangnefeddus, fel y credwn fod pawb yn hoff o hono. Claddwyd yn Alltyblacca, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. L. Williams, a J. Davies. Gadawodd dad, un brawd, a thair chwaer mewn hiraeth ar ei ol.

CHWEFROR 6, yn 58 oed, bu farw David Jones, Gwarffynnon, ger Cribyn. Er nad oedd wedi mwynhau iechyd da er's blynyddau, eto byr fu ei gystudd olaf—ychydig gydag wythnos. Mab ydoedd i'r diweddar Thomas a Rachel Jones, Glydwer, y rhai a hannent (o'i ddwy ochr) o deuluoedd adnabyddus iawn ym mhlwyf Llanwenog er's cenhedlaethau. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol briod, pedwar o blant, dwy chwaer, dau frawd, a lliaws o berthynasau agos ereill. Gwelir ei eisiau yn fawr yn y cartref, oherwydd, er ei fod yn analluog i wneud nemawr o waith ar gyfrif ei anhwylder, eto yr oedd yn y cartref, yn cyfarwyddo ac yn cynghori'r teulu. Dydd Mawrth canlynol, hebryngwyd ei weddillion gan dyrfa liosog i fynwent Llanwenog. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Cribyn; gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. L. Williams, ac yn Llanwenog gwasanaethwyd gan y Parch. R. D. Davies, Ystrad.

CHWEFROR 19, yn 24 oed, bu farw John Jones, annwyl fab Thomas ac Anne Jones, Pantydderwen, Neuaddfawr, ger Llanwnen, mewn canlyniad i ddamwain yn un o byllau glo Clydach Vale. Bu yn y fyddin am yn agos i bedair blynedd, ac yn Ffrainc am yn agos i ddwy flynedd. Yn ystod ei amser yn Ffrainc, bu mewn amryw frwydrau celyd; ond daeth o honynt oll yn ddianaf. Tua blwyddyn yn ol, cafodd ei ryddhau o'r fyddin, er mawr lawenydd i'w berthynasau a'i gyfeillion; ac ar ol ychydig amser o seibiant, i ymgryfhau ar ol ei fywyd caled aeth i Forgannwg. Yn gynnar ar ol iddo ddechreu gweithio hwyr y dydd uchod, syrthiodd carreg enfawr arno, fel y bu farw ymhen ychydig fynydau. I'w deulu yr oedd hwn yn ergyd caled iawn; trowyd eu llawenydd oblegid ei ddychweliad o'r peryglon yn Ffrainc yn alar dwys oblegid ei golli fel hyn mor ddirybudd ac annisgwyliadwy. Nerth a gaffont oll i ddal i fyny dan y ddyrnod, ac i gymedroli eu galar. Blin iawn yw ei golli fel hyn; ond ymhellach na hyn nid oes ganddynt un achos blinder o'i blegid ef; yr oedd yn bob peth ag y dichon i rieni ddymuno i'w plentyn fod—sobr, gweddaidd ei iaith, o rodiad arderchog, gofalus am ei deulu; yr oedd yr olaf—a'i ofal am ei deulu—yn nodwedd arbennig o amlwg ynddo. Torrwyd ei yrfa yn gynnar iawn—lawer rhy gynnar i'n golwg ni. Ond "mae t'wyllwch a chymylau'n toi dibenion doeth ein Rhi," ac ofer ydyw i ni geisio olrhain ei ffyrdd. Ymaelododd yng Nghapelygroes yn weddol ieuanc; a bu yn ffyddlawn iawn fel aelod; ac fe harddodd ei broffes a'i gymeriad glân. Hebryngwyd ei weddillion o dŷ ei rieni i fynwent Capelygroes dydd Llun canlynol gan dyrfa anarferol o liosog. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, oddiar Salm 102: 23, a gweddiwyd yn dyner iawn ar lan y bedd gan y Parch. E. Glyn Edwards.

CHWEFROR 10, yn 73 mlwydd oed, Hannah Davies, Glanyrafon, Cambrian Place, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn weddw i'r diweddar Mr. William Davies, Coedwr, Llandyssul, ac yn ferch i "Daniel Penrhiwcoyle," Alltyrodyn. Perthynai i'r ymadawedig lawer o nodwedd.

ion da ei hynafiaid. Gadawodd fab a merch mewn galar o'i cholli. Claddwyd ei gweddillion marwol ym Mhantydefaid y dydd Gwener dilynol, y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu.

CHWEFROR 21, yn 90 mlwydd oed, yn y Post Office, Mydroilyn, bu farw John Williams, gynt o Cwrtybrodyr, plwyf Llanwenog. Mwynhaodd iechyd da iawn tiwy ei oes hir, ac ni pharhaodd ei gystudd olaf ond ychydig wythnosau. Ar farwolaeth ei briod tua blwyddyn yn ol, aeth i fyw at ei nai a'i briod, Mr. a Mrs. Evans, yn y lle uchod; a chafodd bob tynerwch a gofal ganddynt. Yr oedd y genhedlaeth y perthynai ef iddi wedi diflannu ymron yn llwyr, a chenhedlaeth arall wedi codi o'i gylch; a theimlai ei fod yn dod fwyfwy unig—yn enwedig ar ol iddo golli ei briod, â'r hon yr oedd wedi cydfyw am drigain mlynedd; ond ei gwaethaf ei unigrwydd, parhaodd yn dda iawn o siriol a boddlongar hyd y diwedd. Dyn tawel, diniwed, o gymeriad da ydoedd; a hoffid ef yn fawr gan gylch ei adnabyddiaeth – nid gan neb yn fwy na chan y sawl a'i hadnabyddant oreu; a thra sicr ydwyf nad oedd iddo elyn mewn bod. Yr oedd yn hoff o ddarllen—yn enwedig, o ddarllen YR YMOFYNYDD a'r "Faner"; a meddai ar syniadau clir iawn ar y pynciau ddygid i'w sylw drwy y cyfryngau hyn. Yr oedd hefyd yn gerddor da iawn; meddai lais melodaidd; ac nid oedd dim yn ei foddio'n fwy na chanu'r hen emynau a'r tonau ddysgwyd ganddo pan yn ieuanc. Dydd Mercher canlynol, dygwyd ei gorff i fynwent Capelygroes; a daeth nifer liosog o'i gyfeillion a'i gymydogion i gwrdd ag ef i'r capel. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. R. Thomas, Mydroilyn; pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a gweddiwyd ar lan y bedd gan ei hen gyfaill, y Parch. J. Davies.

CHWEFROR 14, yn 50 mlwydd oed, bu farw Mrs. Anne Jones, Cwmanne Tavern, ar ol cystudd byr ond caled, eto nid oedd wedi mwynhau iechyd da er's tro. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. John Jones, Rhiwonen gynt. Hannai o deulu parchus, ac yr oedd iddi hithau air da am garedigrwydd a chymwynasgarwch. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Brondeifi. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei gweddillion marwol i fynwent eglwys Aberduar—claddfa'r teulu. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan yr Hybarch John Davies, Tancoed; pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. O. Williams, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. C. Griffiths. Gadawodd briod, un ferch a mab i alaru'u colled am briod dyner a mam ofalus. "Ysbryd addfwyn a llonydd yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr."

CHWEFROR 15, Margaret Evans, gweddw y diweddar David Evans, Fferm, Talgarreg, yn 77 oed. Gwelodd yr ymadawedig a'i phriod 57 o flynyddoedd o gydfyw yn y lle uchod heb i gymaint ag un angladd fynd allan o'r tŷ, er iddynt fagu deg o blant, ond erbyn hyn wele hwynt eill dau wedi mynd o fewn i bedwar mis i'w gilydd. Er's blynyddoedd meithion yr oedd yr ymadawedig yn ddioddefydd enbyd oddiwrth y gymalwst yn y gliniau, ac anfynych iawn y gwelid hi y tu allan i ddrws ei thŷ. Treuliai y rhan fwyaf o'i hamser y blynyddoedd hyn yn ei chadair yn ymyl y tân, ond os methai gymeryd rhan yn ngwaith y tŷ a'r fferm yr oedd ganddi ffordd hapus o drefnu a goruchwylio gwaith. Yr oedd yn hoff iawn o gwmni ac ymgom, ac with wrando arni yn ymgomio o'r braidd y gallesid credu ei bod yn ddioddefydd o gwbl. Yr oedd mor siriol a dirwgnach, a'i siarad bob amser yn hollol ddiwenwyn. Yr oedd ganddi lu o gyfeillion a chyfeillesau, a gwyddom fod llawer o honynt yn hiraethlon iawn ar ei hol. Pan yn iach yr oedd yn aelod ffyddlon yn Bwlchyfadfa, a mynych yn ystod y blynyddoedd diweddaf yma y clywsom hi yn cwyno ei hanallu i fynychu'r gwasanaeth megys cynt. Cydymdeimlir yn fawr a'r plant, yn

enwedig a'r ddau sydd gartref, ac heb fod lawer allan o'i golwg erioed. Gadawodd heblaw hwy, chwaer, dau frawd, wyrion, a nifer o berthynasau ereill mewn galar. Y Gwener canlynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

YN rhifyn Ionawr, tudalen 16, mae gwall y dylid ei gywiro er mwyn cywirdeb hanesyddol. Darllener fel hyn :—'Arferai'r Metodistiaid Calfinaidd yn yr hen amser alw yr Annibynwyr yn *Sentars Sychion.*'

CAPELYGROES.—Nos Sul, Chwefror 1af, cynhaliwyd cyfarfod mewn cysylltiad â'r Ysgol Sul, pryd yr awd drwy raglen ddyddorol gan blant yr Ysgol Sul. Rhannwyd y gwobrwyon am fynychu'r Ysgol, a'r *certificates* i'r rhai oedd wedi pasio'r arholiad. Cafwyd cyfarfod hwylus dros ben.

LLANBEDR.—Bydd yn dda gan ei liaws cyfeillion wybod fod Mr. D. Ernest Evans, mab ieuengaf Mr. a Mrs. Timothy Evans, wedi'i apwyntio yn *manager* ar hen swyddfa argraffu D. R. Evans a'i gyfeillion (Gwasg y Bont). Wedi bod bedair blynedd yn y rhyfel, ac yn garcharor am ysbaid yn yr Almaen, da ydyw gweled y cwmni yn dyrchafu milwr.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Yn Ysgoldy y Graig, nos Fercher, Ionawr 28, cynhaliwyd gwledd o dê i blaut yr Ysgol Sul, ynghyd a chyfarfod i'r diben o gyflwyno Bathodyn i Mr. Haydn Morgan, — wedi ei ennill yn Arholiad yr Ysgol Sul y flwyddyn ddiweddaf. Da gennym longyfarch Haydn ; er nad yw ond crotyn megis, disgwyliwn bethau mawr oddiwrtho. Ei gyfaill mwyaf mynwesol yntau ydyw 'llyfr,' ac y mae yr un mor anhawdd iddo ef basio heibio i siop lyfrau ac yw i ferch neu wraig fynd heibio i siop hetiau. Ardderchog Haydn ! yn uwch eto.——Dymunir galw sylw pob aelod o'r gynulleidfa at fater yr *Organ Fund.* Rhoddir blwyddyn gyfan i bob un y sydd am hynny o amser i gasglu ei addewid ynghyd a'i throsglwyddo i'r trysorydd. Pawb ereill fedrant fforddio'i haddewidion yn awr, gwyddis y bydd y pwyllgor yn falch. Yr ysgrifennydd yw Mr. H. H. Morgan ; y trysorydd, Mr. John W. Bowen, a'r cadeirydd, Mr. John Hopkin.

SYR.—Gofyna gohebydd Trebanos yn rhifyn mis Ionawr beth a olygwn wrth ddweyd mai crefydd yw enaid cywilydd. Yr oedd yn rhy ddiweddar i mi ysgrifenu atebiad i'r rhifyn am Chwefror pan dynwyd fy sylw at y gofyniad. Dyma fe, fel ag y mae, o'r diwedd ynte. Wrth gywilydd, golygwn y teimlad rhyfedd ac anesmwyth a gymer feddiant o honom pan beidiwn a dyfod fyny a gofynion ein natur orau ; ac awgrymwn mae ein gorau yn ymegnio yn erbyn ein hymddygiadau iselwael ydyw ein cywilydd, pan drown i geisio ei dadansoddi a'i ddeall. Onibae am bresenoldeb y gorau hwn ynom ni chodau y gwrid i'n gruddiau gan nad pa mor ddrwg y byddem. Cofier ar yr un pryd mae gorau dyn yn gwneud ymgais am gydnabyddiaeth a bywyd a olygai y pregethwr wrth grefydd.—Yr eiddoch yn bur, T. ERIC DAVIES, Cefn Coed.

CYFOETH.—Mae babi cyntaf pob teulu yn Nghymru "yn werth y byd i gyd!"

PAN ddewisiwyd yr Henadur William Lawrence yn Sirydd Llundain (1849), fe benodwyd y Parch. David Davison, M.A., yn gaplan. Tybir mai hwn oedd y tro cyntaf i weinidog Anghydffurfiol ddal y swydd.

Y "May Flower" oedd enw'r llong a gludodd y Tadau Pererinol, yn 1621, o Brydain i America. Sonir eisoes am ddathlu tri-chan-mlwyddiant o'r amgylchiad. Ymddangosodd erthygl ddyddorol ar y pwnc yn YR YMOFYNYDD, Hydref 1868. Gobeithiwn y cymer rhywun y mater i fyny eto. Mae yn deilwng iawn o hyny.

ARFERAI y diweddar Arglwydd Cromer, llenor dysgedig yn ei ddydd, ddywedyd mai'r darn prydferthaf o farddoniaeth a ysgrifenwyd erioed yw'r wythfed bennod ar hugain o lyfr Job.

MAE'R sylw a wnaeth y Brenin Louis XIV unwaith wrth y pregethwr enwog, Marsillon, yn teilyngu ein sylw dwysaf. "Father," meddai, "pan glywaf eraill yn pregethu, teimlaf yn hapus ac yn foddlon; ond pa bryd bynnag y clywaf chwi, yr wyf bob amser yn teimlo yn anfoddlon ataf fy hunan." Mae'n amlwg fod Marsillon yn gwneud ei ddyledswydd wrth bregethu.

"JOHN BASTWICK, M.D. (1593—1654). Ganwyd yn Essex. 1623, meddyg yn Colchester; dirwywyd ef o £1000, a charcharwyd ef am ei *Flagellum Pontificis* 1634, amddiffyniad o Bresbyteriaeth. Dirwywyd ef o £5000, a thorrwyd ei glustiau yn y Pilwri, a dedfrydwyd ef i garchar dros ei fywyd am ei "Letanic," 1637, yn dwrdio tipyn ar esgobion. Rhyddhawyd ef gan y Senedd, Tachwedd 1640. Ty yr Arglwyddi yn fotio £5000 iddo, ond nid ymddengys iddo eu cael byth." Diolchwn ein bod yn byw yn yr ugeinfed ganrif—"canys y mae yn llawer gwell!"

BARN ROOSEVELDT.—Pob llwydd i chwi a'ch cymdeithion. Yr ydych yn dysgu gwers nad oes ar neb fwy o angen ei dysgu na ni pobl y Gorllewin, ni pobl y genedl awyddus, anesmwyth, cyfoeth-geisiol hon, ar ol cyraedd safle neillduol—nid un uchel iawn—o gysur materol, yna i gael deall mae pethau perthynol i'r yspryd sydd yn y pen draw yn cyfrif mewn bywyd. Mae ffactrioedd a rheilffyrdd yn burion hyd ryw bwynt neillduol. Ond mae gwroldeb ac amynedd, cariad at wraig a phlant, at gartref a gwlad, cariad carwr at gariad, cariad at brydferthwch yn ngwaith dyn ac yn natur, cariad at fuddgarwch ac ymdrech aruchel, y rhinweddau cartrefol, rhinweddau pob dydd, mae y rhai hyn yn well fyth. Os bydd y rhai hyn yn eisieu, ni wna'r pentwr cyfoeth, na'r diwydiannaeth prysur, na gweithgarwch amlochrog leshau dim i'r unigolyn na'r genedl. Nid wyf yn dibrisio y pethau hyn yn nghorff y genedl; yn unig yr wyf yn dymuno na fo iddynt beri i ni anghofio, heblaw corff cenedl, fod yna enaid cenedl hefyd.

WRTH WELD ADERYN BACH YN GWNEUD EI NYTH.

Gwelaf aderyn gwiwlon—yn y llwyn
Yn lluniaw yn ffyddlon,
O wir gariad, llwysfad llon,
Fwyn gawell i'w fan gywion.

Aberdar. T. AP IOAN (1841).

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul

LINDSEY PRESS PUBLICATIONS.

The Idealism of Jesus. By Sir Henry Jones. Preface by Rev. L. Jenkins Jones. Crown 8vo, 62 pp., 1s. net, postage 1½d.

Pauline Meditations. By James Drummond, M.A., LL.D., Litt.D. With Memorial Introduction by Edith Drummond and Professor G. Dawes Hicks. Crown 8vo, lxii+312 pp., 7s. 6d. net, postage 6d. Photogravure Portrait.

The Way of Life. New Testament Studies. By James Drummond, LL,D., Litt.D. Vol. I. The Parables of Jesus. Vol. II. The Lord's Prayer and the Teaching of Jesus. Crown 8vo, cloth, 2 vols., 8s. net, postage 6d.

The Spikenard and other Sermons. By Stopford A. Brooke, M.A., LL.D. With Introduction by Rev. J. H. Weatherall, M.A. Crown 8vo, 138 pp., 3s. 6d. net, postage 3d.

Labour and Religion. By Richard Lee, M.A. An Appeal to Labour on behalf of a Free and Progressive Religious Faith. Pamphlet 24 pp., 2d., postage ½d.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz:—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11

				£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England				63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*				2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice				65,809,169	12	4
,, Investments:—						
War Loans, at cost (of which £432,979 15s is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..				57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures				468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..				1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds				1,410,465	18	10
Sundry Investment				1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange				39,249,296	3	2
				232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..				99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans				14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..				13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..				3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares:—						
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid						
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid						
Cost	£1,237,500	0	0			
Less part Premium on Shares issued ..	477,810	0	0			
				759,690	0	0

YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 4] EBRILL, 1920 [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
ODDIAR Y TWR.
BYD ADEILADAETH AR OL Y RHYFEL.
GWANWYN YR ENAID.
PRYDAIN A RHUFAIN.
NODION Y MIS.
DISGYBLU'R MEDDWL A'R EWYLLYS.
PRIODASAU. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS:

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side; (*b*) The Vocational Side; (*c*) The Cultural Side; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. - - - Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.